**Ein Stori Lawen**

Yr ydym yn Eglwys Blwyf Gymraeg yng nghanol y ddinas ac yr ydym wedi bod yn rhan o fywyd, bwrlwm a thwf Caerdydd ers mwy na chanrif a hanner.

- Mynegwn ein ffydd Gristnogol yn llawen trwy ein haddoliad, ein gwasanaeth a'n cymdeithas mewn awyrgylch sy'n groesawgar, gofalgar a theuluol ei naws.
- Yr ydym yn meithrin ein plant a'n pobl ifanc trwy weithgareddau'r Ysgol Sul a'r gwasanaethau teuluol, a thrwy ein gwasanaethau litwrgaidd, y geiriau a'r gerddoriaeth cawn ein hysbrydoli i addoli a gwasanaethu'r Duw byw.
- Yr ydym yn falch o annog a chefnogi dysgwyr y Gymraeg.
- Mae croeso ac mae lle yn yr eglwys hon i bawb sydd am ystyried neu ailgydio yn eu ffydd neu sy'n chwilio am gartref ysbrydol.

*Os am ragor o wybodaeth am Eglwys Dewi Sant:*


**Ficer/Vicar:** Y Parchedig Ganon Dyfrig C. Lloyd
Rhif Ffôn: 029 2056 6001
E-bost: dyfriglloyd@hotmail.com
Y Parchedig Rhian Linecar (*Offeiriad*)
Ffôn: 01446 760 007
E-bost: rlinecar@gmail.com
**Y Wardeniaid/Churchwardens:**
Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328
E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com
Delyth Davies – Ffôn: 077 61 118722
E-bost: delyth.d@yahoo.com
**Cyfarwyddwr Cerdd:**
Ieuan Jones, B. Mus - Ffôn: 074 29 012781
E-bost: ieuanjones@hotmail.co.uk
**Trysorydd**:
Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328
E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com
**Ysgrifennydd Cymorth Rhodd:**
Graham Carson - Ffôn: 029 2069 1860
**Ysgrifennydd Cyngor Plwyf:**
Marian Fairclough - Ffôn: 07579763030
E-bost: faircloughmarian@gmail.com


**Esgobaeth Llandaf + Deoniaeth Caerdydd**

**EGLWYS DEWI SANT**

www.eglwysdewisant.org.uk

**CROESO i bawb sydd yn ymweld â'r eglwys heddiw. Cofiwch ymuno â ni am baned a sgwrs yn y neuadd ar ôl y gwasanaeth.**

**21 Ebrill 2024**

*Pasg IV – Sul y Bugail Da*

**8.00am Y Cymun Bendigaid**
**Darllenwr:** Wyn Mears

**10.30am Y Cymun Bendigaid ar gân ac Ysgol Sul**
**Darllenwyr:** Nia Thomas / Rhys Davies
**Emynau:** 293 (Llanfair); 358 (Cleveland 240);
102 (Warrington); 346 (Woodlands)

**6.00pm Yr Hwyrol Weddi**
**Salm:** 81:8-16
**Darlleniadau:** Ecsodus 16:4-15
Datguddiad 2:12-17
**Darllenwyr**: Siân Eleri Thomas / Jennifer Taylor
**Emynau:** 249 (Boston 246); 436 (Nes i Dre);
335 (Dolwyddelan)

**YN EIN GWEDDÏAU**

Cofiwn yn ein gweddïau y cleifion: Megan Davies, Falmai Griffiths, John Hicks, Eleri Hughes, Stuart Owen Jones, Ann Wyn Jones, Ann Mears, Barry Thomas (Offeiriad), Gwen Thomas, Gwenda Williams ac am bawb sy'n gofalu amdanynt.

Gweddïwn hefyd dros bawb a fu farw yn nhangnefedd Crist a thros bawb y cofiwn am eu marwolaeth yr adeg hon o'r flwyddyn. Dyro iddynt, O Arglwydd, orffwys tragwyddol a llewyrched goleuni gwastadol arnynt.

**CYNGOR PLWYFOL EGLWYSIG**

**YN YR EGLWYS:**

**Nos Fawrth 23 Ebrill 2024**
6.00pm Ymarfer Côr

**Dydd Mercher 24 Ebrill 2024**
10.30am Y Cymun Bendigaid

**Dydd Sul 28 Ebrill 2024**
*Pasg V*
10.30am Y Foreol Weddi a Festri'r Pasg
6.00pm Gwasanaeth Teirieithog – Cymraeg, Cernyweg a Llydaweg

Cynhelir cyfarfod arbennig o'r CPE yn yr neuadd yr eglwys nos yfory, Llun 22 Ebrill. Bydd yr Archddiacon yn ymuno â ni i drafod y newidiadau yn y ffordd y mae'r Esgobaeth yn gofyn am gyfraniadau oddi wrth yr eglwysi lleol i gynnal y weinidogaeth. Oherwydd hyn, mae cyfarfod yr is-bwyllgor C&B yn cael ei ohirio.

**Y SUL NESAF:**

Mae dau ddigwyddiad o bwys gennym y Sul nesaf. Bydd Festri'r Pasg yn y bore a'r Gwasanaeth Teirieithog yn yr hwyr am 6.00pm.

**FESTRI'R PASG**

Cynhelir Festri'r Pasg y Sul nesaf, 28 Ebrill yn syth ar ôl y gwasanaeth 10.30am. Dyma gyfarfod blynyddol yr Eglwys. Os nad ydych wedi derbyn yr adroddiad blynyddol trwy e-bost neu os hoffech gopi caled mynnwch air â Rhys Jones.

**AELODAU'R CYNGOR PLWYFOL EGLWYSIG**

Diolch i bawb sydd wedi rhoi eu henwau ymlaen eu henwau i gynrychioli'r Eglwys ar y Cyngor Plwyfol Eglwysig yn ystod y flwyddyn 2024 – 2025. Os oes unrhyw un arall a hoffai wasanaethu fel aelod o'r CPE a wnewch chi roi eich enw ar y daflen sydd yng nghefn yr eglwys cyn festri'r Pasg, sef cyfarfod blynyddol yr eglwys. Mae'r CPE yn cyfarfod 4 gwaith y flwyddyn. Os hoffech ragor o wybodaeth mynnwch air â'r Ficer neu un o'r wardeniaid. *Y Ficer.*

**GWASANAETH TEIRIEITHOG**

Nos Sul nesaf, 28 Ebrill am 6.00pm cynhelir gweinyddiad teirieithog (Cymraeg, Cernyweg a Llydaweg) o'r Cymun Bendigaid. Y Parchedig Ganon Jeffrey Gainer (Esgobaeth Tyddewi) fydd yn pregethu. Bydd yn gyfle i ni ddathlu ein hetifeddiaeth Gristnogol Geltaidd yn yr ieithoedd brodorol. Dewch yn llu. Dewgh yn nombyr. Deuit niverus.

**NOSON O GYMDEITHASU**

Nos Fercher yr wythnos hon, 24 Ebrill am 7.30pm yn neuadd EDS byddwn yn cynnal noson gymdeithasol yng nghwmni Karl Davies. Bydd Karl yn siarad am ei brofiadau o fyw a gweithio yn Tsieina. Fe fydd danteithion Tsieineaidd yn rhan o'r digwyddiad ac felly bydd yn gymorth i ni gael syniad o'r nifer sy'n dod. Os ydych yn bwriadu ymuno â ni a wnewch chi roi eich enw ar y daflen sydd yng nghefn yr eglwys.

**COFFI A CHLONC**

Diolch i bawb a ddaeth i'r bore coffi a chlonc ddoe. Roedd yn braf cael croesawu hen ffrindiau a ffrindiau newydd. Cynhelir y bore coffi nesaf bore Sadwrn 18 Mai.

**CANOLFAN GLYD**

Mae'r ganolfan glyd yn y Tabernacl yn casglu dillad dynion: sanau a dillad-isaf, crysau-t, siwmperi, crysau, cotiau, esgidiau (hen neu newydd). Os hoffech gyfrannu mae bocs pwrpasol yng nghefn neuadd yr eglwys.

**BLODAU'R ALLOR – ROTA**

Mae'r rota newydd yng nghefn yr eglwys. Os hoffech roi blodau ar yr allor a wnewch chi roi eich enw wrth eich dewis o ddyddiadau dros ddau Sul os gwelwch yn dda. Mae'r blodau'n para am bythefnos fel arfer.

**AGOR YR EGLWYS**

Yn gwarchod yr wythnos hon fydd:
Lynette Alun a Dilys Jones

**GWEDDÏAU'R SUL**

Yn ein gweddïau heddiw, gofynnir inni weddïo dros:

- Eglwys Anglicanaidd Awstralia
- Clerigion Ardal Weinidogaeth Taf Wenallt, y Parchedigion John Davis (Arweinydd), Peter Mortimer (Ficer), Andrew Highway (Ficer), Anna Harwood (Ficer), Benedict Yates (Curad)

***Darlleniadau a Gwyliau***

***Dydd Llun 22 Ebrill:***
*Actau 11:1-18; Salm 43; Ioan 10:1-10*
*Gweddïwn:* Esgobaeth Dunedin – Eglwys Aotearoa, Seland Newydd a Polynesia
Ardal Gweinidogaeth y Garth, y Parchedig Sandra Birdsall (Arweinydd), John Kliff (Cadeirydd Lleyg)

***Dydd Mawrth 23 Ebrill: St Siôr***
*Actau 11:19-26; Salm 87; Ioan 10:22-30*
*Gweddïwn dros:* Esgobaeth Dunkwa-on-Offin, Eglwys Talaith Gorllewin Affrica
Ardal Gweinidogaeth Calon y Ddinas, y Parchedig Ganon Sarah Jones (Arweinydd), Paul Booth (Cadeirydd Lleyg)

***Dydd Mercher 24 Ebrill:***
*Actau 12:24-13:5a; Salm 67; Ioan 12:44-50*
*Gweddïwn dros:* Esgobaeth Durgapur – Eglwys Unedig Gogledd India
Byddin yr Eglwys, Hannah Seal (Efengylydd), Meg Borges yn Eglwys St Ioan Canol y Ddinas

***Dydd Iau 25 Ebrill: Marc Efengylwr***
*Diarhebion 15:28-33; Salm 119:9-16; Effesiaid 4:7-16; Marc 13:5-13*
*Gweddïwn dros*: Esgobaeth Durham – Eglwys Loegr, Talaith Efrog
Deoniaeth Eglwysilan, y Deon Bro dros dro, y Parchedig Simon Freeman

***Dydd Gwener 26 Ebrill:***
*Actau 13:26-33; Salm 2; Ioan 14:1-7*
*Gweddïwn dros:* Esgobaeth Duste – Eglwys Nigeria
Ardal Gweinidogaeth Pontypridd, y Parchedig Charlotte Rushton (Arweinydd), Esther Sowerby (Cadeirydd Lleyg)

***Dydd Sadwrn 27 Ebrill:***
*Actau 13:44-52; Salm 98; Ioan 14:7-14*
*Gweddïwn dros:* Esgobaeth Dwyrain Kerala – Eglwys Unedig De India
Clerigion Ardal Gweinidogaeth Pontypridd, y Parchedig Charlotte Rushton (Arweinydd), Rachel Campbell (Ficer),
Jeremy Heuslein (Curad), Philip Hopkins (Darllenydd Lleyg)